**Patrwm gweu dwbl– offer angenrheidiol**

- Edafedd dwbl (DK)
- Unrhyw liwiau'r enfys -amryw o liwiau neu un lliw
- Gweill 4.50mm / maint 7

**Cyfarwyddiadau**

Castiwch ymlaen ddigon o bwythau i greu 8" (20cm), ddylai fod rywle rhwng 35 a 40 pwyth. Gwnewch yn siŵr nad yw'r pwythau'n rhy dynn neu'n rhy llac er mwyn creu sgwariau cyson. Gall hyn amrywio gyda thensiwn yr edafedd.

***Nodyn:*** *Gwiriwch y gague (tensiwn) bob 3 neu 4 rhes. Bydd hyn yn osgoi rhwystredigaeth os yw'r sgwâr yn rhy llydan neu'n rhy denau. Addaswch yn ôl y galw drwy ddechrau gyda mwy neu lai o bwythau.*

**Rhes 1:** gweu

**Rhes 2:** gweu

Mae mor syml â hynny! Cadwch i weu rhesi 1 a 2 tan bod hyd a lled y sgwâr yr un faint.



I sicrhau bod y sgwâr yn 8″ (20cm), defnyddiwch dâp mesur, neu plygwch gornel i gyffwrdd y gornel gyferbyn, fel yn y llun. Os yw'r ochrau yr un maint mae'r darn yn sgwâr!

Castio i ffwrdd/clymu. Gadewch gynffon 20″ (50cm) (er mwyn gwnïo'r sgwariau at ei gilydd). Gwnïwch bob darn edafedd rhydd arall yn daclus.